



THE NATIONAL LOTTERY®



CHAPTER

*Datganiad i'r Cyfryngau
I'w ryddhau ar unwaith*

Beth sydd yn digwydd yn 2019 Rhwydweithiau a Gwyliau Cymreig Newydd yn Creu Cyfleoedd i Gynulleidfaoedd Ffilm yng Nghymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru, dan arweiniad Chapter a rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI, wedi cyhoeddi cefnogaeth i 10 prosiect newydd. Diolch i gyllid y Loteri Cenedlaethol fe fyddan nhw yn cyflwyno rhagor o ffilmiau, i ragor o bobl, mewn rhagor o sinemau a gwyliau ffilm ar draws Cymru.

Ochr yn ochr gyda gwyliau ffilm sydd yn dathlu animeiddio, sinema'r Eidal a straeon LGBT+, fe fydd dwy rwydwaith ddyfeisgar newydd yn cynnig digwyddiadau hygyrch i gynulleidfaoedd Cymreig heb wasanaethau digonol:

- Mae'r **Rhwydwaith Gwyliau Ffilm Ieuenctid** yn bwriadu cefnogi rhai brwdfrydig drwy annog rhaglennu ffilmiau yn rheolaidd i gynulleidfaoedd rhwng 16 – 30 oed. Wedi'i leoli yn y Rhyl gyda Wicked Wales, fe fydd yn galluogi talent newydd i gysylltu gyda dros 40 o wyliau ffilm yma yng Nghymru
- Gan weithio ar draws Bro Morgannwg mae **Lleoliadau'r Fro**, dan arweiniad Canolfan Gelfyddydau'r Memo yn y Barri yn dod ag 11 o sinemau at ei gilydd ledled y wlad i leihau ynysigrwydd cymunedol ac adeiladu rhaglenni ffilm gwledig cynaliadwy

Fel y mae Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru yn esbonio:

“Rydym wedi dysgu cymaint oddi wrth ddatblygu ein rhwydweithiau Canolfan cyfredol; Off Y Grid ‘ar Rhwydwaith Ffilmiau Hoyw, lle bu aelodau yn profi dulliau gweithredu arloesol. Mae nifer o fanteision i'r gallu i ddod ynghyd oddi mewn i ranbarth neu arbenigedd, o ddatblygu sgiliau i ragor o ddewis a chynrychiolaeth i gynulleidfaoedd. Rydym yn rhagweld y bydd y rhwydweithiau newydd yma, sydd yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd gwledig ac ifanc, yn galluogi arddangoswyr Cymreig i gysylltu gyda rhai sydd yn dod i'r sinema o'r newydd ac yn cael effaith ar yr hyn sydd eisoes yn galendr gwyliau Cymreig sylweddol.”

Dywedodd Ben Luxford, Pennaeth Cynulleidfaedd DU: *“Mae'n wych gweld Canolfan Ffilm Cymru yn defnyddio cyllid y Loteri Cenedlaethol i gysylltu gyda lleoliadau a'u hysbrydoli, a hefyd cryfhau rhwydweithiau ar draws Cymru gyfan er budd cynulleidfaedd.”*

Mae Canolfan Ffilm Cymru wedi cyflwyno cyfanswm o 29 o fentrau arddangos ffilmiau amrywiol i Gymru yn 2019 mewn partneriaeth gydag aelodau'r Ganolfan. Cefnogir y prosiectau gan Ganolfan Ffilm Cymru, rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI gan ddefnyddio cyllid gan y Loteri Cenedlaethol i sicrhau bod y dewis mwyaf o sinema ar gael i bawb ar draws y DU.

Rhanbarth: Cymru Gyfan

Rhwydwaith Gwyliau Ffilm Ieuencid (Awst 2019 – Mawrth 2020)

Fe fydd menter rhwydwaith ffilm Gymreig newydd, a ddatblygwyd gan Ganolfan Ffilm Cymru, Wicked Wales (y Rhyl) a gwyliau allweddol o fewn y rhanbarth yn gweithio i gynyddu rhaglenni ffilm Prydeinig, annibynnol a rhyngwladol sydd ar gael ac sydd wedi cael eu gwneud gan gynulleidfaoedd ifanc.. Gyda dros 40 o wyliau yn weithredol yng Nghymru, fe fydd y prosiect yma yn dod â chyrrff at ei gilydd i ddarganfod ffyrdd o ymgysylltu gyda rhai ifanc sydd yn frwdfrydig am ffilmiau rhwng 16 a 30 oed.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r cydgysylltydd rhwydwaith [Lorraine Mahoney](#).

Gŵyl WOW

(Medi 2019 - Mawrth 2020)

Cenhadaeth Gŵyl Ffilmiau "Cymru Un Byd" WOW ydy hyrwyddo undod, cydraddoldeb, dealltwriaeth a deialog gyda brodyr a chwiorydd yn fyd-eang a gyda chymunedau amrywiol yma yng Nghymru, gan adlewyrchu amrediad eang o bersbectifau diwylliannol. Maen nhw'n cynnig amrywiaeth eang o ffilmiau a digwyddiadau sydd yn cynrychioli diwylliannau a hunaniaethau amrywiol ar ac oddi ar y sgrin, yn ogystal â delio gyda themâu byd-eang cyfredol.

Yn thema'r Nomadiaid, fe fydd Gŵyl Ffilmiau WOWO 2020 yn cyflwyno sinema rhyngwladol i gynulleidfaoedd amrywiol ar draws Cymru wledig a threfol. Gydag amrediad o sgysiau, trafodaethau panel a chyflwyniadau, mae'r ŵyl yn cyflwyno ffilmiau y tu allan i'r DU i'w dosbarthu yng Nghymru. Mae digwyddiadau arbennig yn cynnwys Clwb Ffilmiau Menywod WOW yng Nghasnewydd ac Abertawe a dychweliad Abercon, confensiwn anime bychain sydd wedi'i gydraglennu gyda Mencap Ceredigion yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth.

<https://www.wowfilmfestival.com/en/>

<https://twitter.com/WOWFilm>

<https://www.facebook.com/WOWfilmfest>

Rhanbarth: Gogledd Ddwyrain Cymru

Wicked Wales

(Medi 2019 - Mawrth 2020)

Mae Wicked Wales yn datblygu rhaglen gydol y flwyddyn yn y Rhyl, i godi ymwybyddiaeth o'u gŵyl Wicked flynyddol y mis Hydref 2019. Mae eu rhaglen yn apelio at bob oed o 'sinema cyd-ganu' i gynulleidfaoedd sydd yn byw gyda dementia, i ffilmiau rhyngwladol byr o 20 gwlad ar draws y byd, sydd yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth gyda [Rhwydwaith Ieuencid Ewropeaidd](#) ac [Into Film Cymru](#). Cefnogir y prosiect gan dîm o wirfoddolwyr ifanc, yn cynnwys lleoliad gwaith 10 wythnos i un person ifanc gydag anghenion ychwanegol.

<https://wicked.wales/community-cinemas/>

https://twitter.com/wicked_film

<https://www.facebook.com/wickedwales/>

Iris on the Move (Ionawr 2020)

Fe fydd Gwobr Iris yn teithio i ogledd Cymru am y pedwerydd tro yn 2020 gan gyflwyno sinema LGBT+ i leoliadau fel Cineworld Cyffordd Llandudno, Pontio ym Mangor ac Oriel Mostyn.

Fe fydd y rhaglen yn cynnwys dwy ffilm nodwedd LGBT + newydd a phump rhaglen o raglenni byr o'r Gorau o Iris 2019, y rhestr fer oedd yn cystadlu am Wobr Iris a Gwobrau Prydeinig Gorau Gwobr Iris yn 2019. Fe fydd cynulleidfaoedd yng nghymunedau gogledd Cymru yn gallu ymgysylltu gyda gwneuthurwyr ffilm newydd drwy sesiynau Holi ac Ateb a rhwydweithio. Mae'r rhaglen yn mynd ar daith hefyd ar draws y DU yn dilyn yr ŵyl.

<https://www.irisprize.org/irisonthemove/>

<http://twitter.com/irisprize>

<http://www.facebook.com/Iris-Prize-Festival>

Rhanbarth: De Ddwyrain Cymru

Lleoliadau'r Fro (Medi 2019-Rhagfyr 2020)

Mae [Lleoliadau'r Fro](#) yn brosiect gwledig Cymru gyfan dan arweiniad Canolfan Gelfyddydau Memo yn y Barri ar ran 11 o leoliadau celfyddydau cymysg a sinemau cymunedol ar draws Bro Morgannwg. Yn 2019, fe fydd cydgysylltydd y rhwydwaith yn datblygu strategaethau cynulleidfa i annog rhaglennu cynhwysol a hygyrch ar draws y gwahanol leoliadau. Drwy ddangosiadau misol wedi'u curadu fe fyddan nhw'n meithrin cydweithredu rhwng partneriaid a chreu rhagor o ymwybyddiaeth cyhoeddus o ddangosiadau sinema a digwyddiadau ffilm lleol ym mhob lleoliad.

<https://www.memoartscentre.co.uk/vale-venues/>

<https://www.facebook.com/ValeVenuesCinema>

Gŵyl Gelfyddydau Bedwas (26 Hydref – 4 Tachwedd 2019)

Mae Neuadd y Gweithwyr Bedwas yn cynnal gŵyl gelfyddydau gymunedol yn pwysleisio cyfranogiad ymarferol mewn gweithdai a digwyddiadau animeiddio, dawns, canu; hanes diwydiannol a gwleidyddol mewn sgwrsiau a thaith gerdded treftadaeth; a noson codi arian ar gyfer Apêl Liffert Ray i wneud y Neuadd yn hygyrch i bawb. Prosiect Peilot ydy hwn a'r gobaith ydy ei gynnal yn flynyddol.

Mae gweithgaredd ffilm yn cynnwys Ms Rhymney Valley' (gyda'r Cyfarwyddwr Karl Francis, yn sgwrsio gyda'r Awdur/Cyfarwyddwr Wyndham Price), dangosiad/sgwrs 'Voices from a Mountain' a deunydd archif o Bedwas yn cynnwys 'Bedwas life' (1950au-90au) a grewyd gan David Rhys James.

<https://www.bedwasworkmenshall.co.uk/>

<https://twitter.com/bedwashall>

<https://www.facebook.com/BedwasHall/>

Gŵyl Ffilmiau'r Eidal (14-17 Tachwedd 2019)

Mae Gŵyl Ffilmiau'r Eidal Caerdydd yn cyflwyno portread deinamig ac amrywiol o'r Eidal gyfoes gyda'i harddwch, cymhlethdod a gwrthgyferbyniadau. Mae'r detholiad o ffilmiau blaengar yn cynnwys pob genre o sinematograffi Eidalaidd gyda phwyslais cryf ar ffurfiau naratif newydd a chynrychiadau annibynnol. Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae'r ŵyl wedi datblygu yn ofod bywiog i gyfarwyddwyr, actorion a chynhyrchwyr o ddwy ochr i'r Sianel. Bwriad Gŵyl Ffilmiau'r Eidal Caerdydd ydy dod yn rhan o broffil artistig rhyngwladol cynyddol Cymru. Cynnigir cefnogaeth y Ganolfan fel rhan o Flwyddyn Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO.

<https://www.iffc.wales/>

https://twitter.com/_IFFC

<https://www.facebook.com/ItalianFilmFestivalCardiff/>

Gŵyl Animeiddio Caerdydd (2-5 April 2020)

Mae Gŵyl Animeiddio Caerdydd yn ddathliad pedwar diwrnod o animeiddio i bawb a gynhelir bob dwy flynedd, gyda rhaglen safon uchel o ddangosiadau, dosbarthiadau meistr, sesiynau Holi ac Ateb, gweithdai, rhwydweithio, digwyddiadau hygyrch ac awyrgylch cymunedol cynhwysol Cefnogir yr ŵyl gan ddigwyddiadau rheolaidd am ddim a rhaglen ymgysylltu mewn partneriaeth gyda chyrrff ar draws Caerdydd.

<http://www.cardiffanimation.com/>

<https://www.facebook.com/Cardiffanimationfestival>

<https://twitter.com/CardiffAnimFest>

Rhanbarth:Gorllewin Caerdydd

Sinema Sadwrn (25 Hydref 2019)

Fe rhan o ddathliad gorllewin Cymru o'r Flwyddyn Darganfod a chynllun Gwnaethpwyd yng Nghymru Canolfan Ffilm Cymru, fe fydd Sinema Sadwrn yn dangos y ffilm Gymreig, *Gwen a'r ffilm fer* a enwebwyd ar gyfer Bafta Cymru, *Neckface*, yn Ystafell Ddarllen Llansadwrn.

<https://www.facebook.com/sinemasadwrn/>

#MadeinWales #ThisIsWales

Yr Egin (Medi 2019-Mai 2020)

Cyfres o ffilmiau misol yng Nghanolfan S4C Yr Egin, gyda'r nod o ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau rhyngwladol a brodorol nad ydyn nhw'n brif ffrwd ar draws Sir Gaerfyrddin. Gan ddathlu'r diwydiant ffilm cyfoethog ac amrywiol yng Nghymru, fe fydd y rhaglen yn apelio at gynulleidfaoedd ifanc rhwng 14-30 oed drwy weithio gyda chlwb gwneud ffilmiau newydd Yr Egin "Asbri".

<https://yregin.cymru/>

https://twitter.com/yr_egin

<https://www.facebook.com/YrEgin/>

Chwiliwch am brosiectau eraill y Ganolfan fydd yn ymddangos eleni fel

- [Gŵyl Ffilmiau Rhyngwladol Arswyd Abertoir](#) o 19-24 Tachwedd 2019 yn Aberystwyth,
- Gwylwch [digwyddiadau clwb ffilmiau](#) Watch Africa Cymru gyda dangosiad i ddod yn Taliesin, Abertawe ar 13 Tachwedd: AKasha a This is not a poem.

DIWEDD

Ar gyfer delweddau copi'wch a gludwch y ddolen ganlynol i'ch porwr:

<https://drive.google.com/drive/folders/1bQsMVbdBKtaGMdb-v6kBvP91urbAt6Hk>

Am ragor o wybodaeth, neu am docynnau i ddigwyddiadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Megan David, Swyddog Marchnata ar 02920311 057 / megan@filmhubwales.org (rhan amser Mawrth - Iau),
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org,
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol ar 02920 353 740 hana@filmhubwales.org.

NODIADAU I OLYGYDDION:

CANOLFAN FFILM CYMRU:

Nod Canolfan Ffilm Cymru ydy cyflwyno rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd o amgylch Cymru. Yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI, a gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae Canolfan Ffilm Cymru yn rheolaidd yn datblygu ffyrdd dyfeisgar i bobl yng Nghymru fynd i'r sinema gyda'i leoliadau aelod annibynnol.

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn un o wyth 'canolfan' DU gyfan, rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI ac fe'i cefnogir gyda chyllid y Loteri Cenedlaethol gyda Chapter wedi'i benodi yn Gorff Arweiniol Canolfannau Film (FHLO) yng Nghymru. Ein nod ydy cyrraedd cynulleidfaedd trwy ddatblygu'r sector arddangos, cynnig cefnogaeth prosiect ymchwil, hyfforddiant a datblygu cynulleidfaedd. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 195 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 420,000 o aelodau cynulleidfa

Mewn partneriaeth gyda'n sinema aelodau, canolfannau celfyddydol, lleoliadau cymunedol, cymdeithasau, gwyliau ac ymarferwyr ffilm ehangach, nod Canolfan Ffilm Cymru ydy dathlu a chefnogi'r sector ffilm diwylliannol bywiog yma yng Nghymru, gan weithio gyda'n gilydd i ehangu a chynyddu dewis i gynulleidfaedd, waeth lle maen nhw'n byw.

filmhubwales.org

twitter.com/FilmHubWales

facebook.com/filmhubwales

Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol. Mae Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI yn ganolog i nod BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilmiau ar gael i bawb. Fe'i sefydlwyd yn 2012 i adeiladu cynulleidfaedd ffilm DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol.

Mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth canolfan a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm wedi'u lleoli'n strategol ar draws y DU. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiadau talent gyda Swyddogion Gweithredol Talent RHWYDWAITH BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda'r genhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI ydy:

- Film Hub Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham mewn partneriaeth gyda Flatpack o Birmingham
- Film Hub North dan gyd arweinyddiaeth Showroom Workstation, Sheffield, HOME Manchester a Tyneside Cinema, Newcastle
- Film Hub South East dan arweiniad y Swyddfa Sinema Annibynnol mewn cydweithrediad gyda Saffron Screen yn Saffron Walden a The Depot yn Lewes
- Film Hub South West dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Film Hub Scotland dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Film Hub Northern Ireland dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Film Hub London dan arweiniad Film London

BFI ydy corff arweiniol y DU ar gyfer ffilm, teledu a'r delwedd symudol. Mae'n elusen diwylliannol sydd yn:

- Curadu ac yn cyflwyno'r rhaglen gyhoeddus ryngwladol fwyaf o sinema byd i gynulleidfaoedd, mewn sinemau, gwyliau ac ar-lein
- Yn gofalu am Archif Cenedlaethol BFI – yr archif ffilm a theledu mwyaf arwyddocaol yn y byd
- Yn chwilio am y genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr ffilm ac yn eu cefnogi
- Yn gweithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i wneud y DU yn lle mwyaf creadigol gyffrous a ffyniannus i wneud ffilm yn rhyngwladol

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae BFI yn elusen gofrestredig wedi'i llywodraethu gan Siarter Brenhinol Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Josh Berger CBE.